‘Heddychiaeth – un o’r hanfodion’
Guto Prys ap Gwynfor

Yr oedd Iesu’n byw pan oedd yr ymerodraeth Rufeinig yn ei hanterth gyda’r *Pax Romana* yn ei fri. Awgwstws Cesar a’i olynwyr oedd ar yr orsedd. Ystyriwyd Awgwstws fel ymherodr tra effeithiol; fe oedd yn gyfrifol am sicrhau’r heddwch. Ystyriwyd ef, a galwyd ef, yn Waredwr y Byd. Yn wir, ystyriwyd ef yn ymgnawdoliad o’r dwyfol, a talwyd gwrogaeth i’w *genius* fel i dduw. A galwyd ef yn ‘fab duw’.

Heddwch a orfodwyd gan fygythion a thrais eithafol oedd y *Pax Romana*, tangnefedd y byd hwn. Perffeithiwyd y dull mwyaf creulon o gael gwared ar rai a beryglai’r *Pax Romana*, sef y groes a chroeshoelio. Ystyriwyd unrhyw un a fygythiai’r heddwch Rhufeinig fel terfysgwr a haeddai ei arteithio a’i ladd yn y modd hwn. Yr oedd yr heddwch hwn yn dra dderbyniol i’r breintiedig cyfoethog oedd yn mwynhau safon byw hynod o uchel. Nid oedd felly i’r werin tlawd a’r caethweision. Dibynai’r heddwch ar y lluoedd arfog a’r parodrwydd i ddefnyddio trais eithafol: “Os am heddwch, paratowch am ryfel”! Meddylfryd sy’n dal yn dra phoblogaidd, ac sy’n rheoli byd-olwg y mwyafrif o’r boblogaeth o hyd. Digon teg yw datgan taw dyma ffordd y byd. “Nid fel y mae’r byd yn rhoi yr wyf i’n rhoi i chwi,” meddai Iesu pan sonia am adael i’w ddisgyblion ‘dangnefedd’. Dioddefodd Iesu ar Golgotha o ganlyniad i ymdrech yr awdurdodau Rhufeinig i gadw’r heddwch hwn.

Ganwyd Iesu ymhlith y tlodion gwledig. Yr oedd Palesteina yn rhan o’r ymerodraeth Rufeinig. Yr oedd haenau uchaf y gymdeithas Iddewig yn cydweithredu â’r Rhufeiniaid, ac yn ymelwa o’r *Pax Romana*. Yr oeddent yn rhan o’r gyfundrefn ormesol. Nhw oedd perchnogion y tiroedd yn Galilea, ond yr oeddent yn byw yn y ddinas, yn bennaf yn Jerwsalem, ac o’u plith hwy y daeth yr arweinwyr crefyddol a reolai’r deml. Rhain oedd gelynion Iesu. Nodweddwyd y cyfnod gan ymlediad y bwlch rhwng y tlawd a’r tra chyfoethog. Trigai’r cyfoethog yn y dinasoedd mawr. Eu breintiau hwy a amddiffynwyd gan y lluoedd arfog, weithiau rhag bygythiadau o’r tu fas, ond gan amlaf o’r tu fewn fel y gwelwyd yn ystod y gwrthryfeloedd niferus a fu ym Mhalesteina.

Mae Paul, wrth reswm, yn ategu hynny. Gwêl ef yr Eglwys fel cymuned o bobol oedd wedi derbyn Iesu yn Arglwydd ac fel disgyblion iddo yn mabwysiadu ei werthoedd. Dinasyddion y nef yw aelodau’r Eglwys, byw yn unol â’r gwerthoedd hynny yw eu braint. Derbyn bod Iesu yn newid agwedd pobol, eu ffordd o feddwl a’u byd-olwg.

Un darn o’r Hen Destament oedd yn boblogaidd ymhlith y llenorion Cristnogol cynnar oedd y weledigaeth yn Eseia 2:3f a Mica 4:2f am droi cleddyfau yn sychau. Maent yn pwysleisio’r ffaith bod dyfodiad y Meseia Iesu yn newid agwedd pobol, newid eu gwerthoedd, newid eu meddylfryd. Newid o dderbyn ffordd Rhufain, y *Pax Romana*, i’w gwrthod a derbyn ffordd Iesu, Ffordd Tangnefedd. Dyma rai enghreifftiau:

> **Iestyn Ferthyr**: “... ac yr ydym ni, a fu’n llawn rhyfel a lladd a phob drygioni …. wedi newid arfau rhyfel, y cleddyfau i erydr a’r gwaywffyn i offer amaethyddol, a meithrin duwioldeb, cyfiawnder, cariad at bobl, ffydd a’r gobaith sydd oddi wrth y Tad ei hun drwy’r Croeshoeliedig.”
>
> **Eirenaios o Lugdunum**: “...Gair Duw, a gyhoeddwyd i’r ddaear gyfan gan yr Apostolion ….. wedi achosi newid i’r fath raddau bod (y cenhedloedd) eu hunain yn troi eu cleddyfau a’u gwaywffyn rhyfel i fod yn erydr ac yn grymanau a roddwyd ganddo ef (Duw) i fedi grawn, (hynny yw) i arfau heddwch ...”

Tertwlianws: "... fe fyddant yn newid tueddiadau meddyliau niweidiol a thafodau gelyniaethus ….. i ddilyn trywydd gwyleidd-dra a heddwch. 'Ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl' sef cleddyf anghydfod. 'Ac ni ddysgant ryfel mwyach,' hynny yw, rhoi lle i deimladau gelyniaethus: fel y gallwch yma hefyd ddysgu i Grist gael ei addo nid (fel un sy'n) rymus mewn rhyfel, ond (fel un) sy'n dwyn heddwch."

Origenes: "... dywedwn ein bod yn dod yn unol â chyfarwyddiadau Iesu i dorri lawr ein cleddyfau rhyfelgar a thrahaus o ymrafael i sychau, a trown i grymanau y gwaewffyn a ddefnyddiwyd gynt i ymladd. Oherwydd ni chymerwn 'gleddyf yn erbyn cenedl' mwyach, ac ni ddysgwn 'ryfel mwyach', gan ein bod yn blant heddwch er mwyn Iesu ..."

Pedwar awdur o bedwar ban yr ymerodraeth, awduron oedd yn gwahaniaethu yn eu barn am nifer o faterion, ond yn unfryd yn hwn; iddynt hwy yr oedd yn un o'r hanfodion.

Yn 313 O.C. cyhoeddodd Cystennin ei Oddefiad. Newidiodd agwedd arweinwyr yr Eglwys dros nos. Ond nid pawb, diolch i Dduw. Parhaodd y dystiolaeth dros heddwch yn y mudiad mynachaidd, oedd yn fudiad hynod o radical yn ei ffurf pan ddaeth i'r Gorllewin.

Yn y Diwygiad Protestannaidd y Radicaliaid a ddaeth i'r casgliad bod ffyddlondeb i Iesu, a bod yn ddisgyblion, yn golygu ymwrthod â rhyfel a pharatoadau ar ei gyfer. Daeth y duedd i'r amlwg yng Nghymru ymhlith y Crynwyr yn bennaf, ac yna o dan eu dylanwad hwy i blith yr anghydffurfwyr. Ennill pobl i'r argyhoeddiad hwn yw'r ffordd i wasanaethu Iesu a chydweithio ag ef yn ei waith achubol.

Pacifism - a Fundamental Principle

In this extract from his contribution to the conference 'A Oes Heddwch?' held in Aberystwyth on 7th June 2014, Guto Prys ap Gwynfor, Chair of Cymdeithas y Cymod, shows how pacifism was seen as a fundamental principle of early Christianity – as illustrated in the writings of authors who lived in very different locations across the Roman Empire. Only after the Christianity became established was war justified. However, the vision of turning swords into ploughshares is as relevant as ever – even though it may not be popularly held. This way lies true peace.